ELIFFANT-Stori wir!

Pan gwahanodd aelodau'r grŵp Injaroc ym mis Hydref 1977 ar ôl ond blwyddyn o fodolaeth, tair gig ar ddeg, a un record hir, roedd Geraint heb fand am y tro cyntaf ers pedair blynedd. Doedd y sefyllfa yma ddim i bara. Un noswaith hydrefol daeth John Davies i alw ar Geraint yn ei gartref yng Nghaerfyrddin, i ofyn iddo a fyddai diddordeb ganddo i gyfarfod gyda cyn aelodau Chwys. Roedd eu canwr carismatig Sulwyn Rees, wedi gadael y band, ac roedd angen canwr newydd. Grŵp roc oedd Chwys yn cynnwys John Davies ar y gitâr, Clive Richards ar y gitâr fas, Colin Owen ar y drymiau a Sulwyn yn canu, a defnyddio chwip mewn ambell i gan! Hwlffordd oedd cartref Chwys, felli daeth John, Clive, Colin a Geraint at eu gilydd yn Johnston, ger y dref am 'jam'. Roc trwm oedd cerddoriaeth Chwys, a'u set lwyfan yn cynnwys caneuon gan Deep Purple a Lead Zepplin. Dylanwadau Geraint oedd bandiau Americanaidd fel Crosby, Stills, Nash & Young, Orleans a The Band. Gwahanol iawn i Chwys! Ond ar y noson honno fu'r bechgyn yn arbrofi gyda pob fath o gerddoriaeth, hyd yn oed canu gwlad! Roedd hi'n amlwg, yn enwedig i Geraint fod yna fwlch anferth lle dylai'r allweddellau fod. Fel y bandiau Americanaidd uchod, roedd Geraint am ddefnyddio organ Hammond yn y gerddoriaeth. Dywedodd John Davies, (yn nol ei arfer), fod dim problem. Roedd e' yn adnabod y boi am y swydd, sef Euros Lewis o Theatr Felin Fach. Problem fach oedd y ffaith nad oedd Euros wedi bod mewn band o'r blaen, nac yn berchen Hammond. I ddweud y gwir doedd gan Euros ddim offer o gwbl, ond roedd e'n galler chwarae'r allweddellau, ac roedd e'n adnabod rhywun oedd yn adnabod rhywun byddai'n fodol benthyg offer iddo. Felli ar noson oer ym mis Chwefror '78 daeth Euros gyda piano Fender Rhodes a amp wedi eu benthyg, i dafarn Half Way, Nantgaredig i ymuno gyda'r pedwar arall i ffurfio ELIFFANT.

Fu Eliffant yn canu caneuon gwreiddiol o'r cychwyn cyntaf. Geraint oedd yn cyfansoddi. Dyma adeg 'Punk' a 'New Wave', roedd Eliffant yn perthyn i'r ail gategori. Roedd eu caneuon yn son am y gofod, motobeics, ymwelwyr arallfydol, cariad, colled, gobaith a'r Aifft! Dros y cyfnod yma roedd y band yn ymarfer yn Theatr Felin Fach, ger Llanbed. Llwyddodd Euros fenthyg Mini Korg yn ogystal â'r Rhodes ar fenthyciad hir dymor. Gyda'r allweddellau, dwy gitâr drydan, aml-leisiau a drymiau a bas awdurdodol iawn fel sylfaen, roedd y band yn datblygu sŵn grymus. Neuadd goffa Pontyberem oedd i weld y perfformiad cyntaf, ar ddydd Gwener Mai 19ed 1978. Ysgrifennodd Hefin Wyn mewn adolygiad yn *Y CYMRO* am berfformiad Eliffant: "Grŵp roc trwm a all roi neuaddau ar dan gyda'i chwarae cywrain". Roedd yr ail gig ar y noson ganlynol yn Tal Y Bont, ger Aberystwyth, a'r trydydd ar Nos Sadwrn y 27ain o Fai ar faes Sioe Amaethyddol Llanelwedd, yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Braidd yn gynnar oedd eu hymddangosiad ar y llwyfan yn anffodus, sef chwech o'r gloch. Ysgrifennodd Hefin Wyn eto yn *Y CYMRO*: "Cyrhaeddais i wynebu heidiau yn heglu o'r sgubor…….Roedd Eliffant wedi cwpla perfformio…..Clywais ganmoliaeth ddiwahân ac ofnais fod y sioe, i bob pwrpas, eisoes drosodd". Trefnwyd y ddwy gig cyntaf gan Tegid Dafis ar gyfer Cymdeithas Yr Iaith. Trefnwyd gig Llanelwedd gan Geraint Davies ar gyfer yr Urdd. Daeth gigs arall yn eu sgil. Mehefin 16eg, Aberystwyth. Gorffennaf 1af, Porthmadog. Gorffennaf 29ain, Llanybydder. A dwy waith yn ystod Eisteddfod Genedleithol Caerdydd yng Ngerddi Sophia ar nos Sadwrn Awst 5ed a nos Wener Awst yr 11eg. Trefnwyd y nos Wener gan Saffari, cwmni oedd yn llogi system sain, ac yn bwriadu dechrau cwmni

recordio. Prif aelodau cwmni Saffari oedd Endaf Emlyn, cyn aelod o Injaroc, a Myfyr Isaac, cyn aelod o'r grŵp Budgie. Cwmni proffesiynol iawn, a chafodd Eliffant eu siomi ar yr ochr orau gan safon y goleuadau a safon y sain. Hwn oedd yr ansawdd sain gorau a grëwyd gan y band hyd yn hyn. Dwedodd Geraint ar y pryd: "…er bod adlais anferth yn y neuadd, roedd y ddau berfformiad yn werth chweil…..Roedd y sain yn fendigedig." Eliffant oedd prif grwp ar y noson, gyda Bran a Trwynau Coch. Erbyn hyn roedd y band yn perfformio'n gyson. Ar lawer o benwythnosau fyddent yn perfformio ar nos Wener a nos Sadwrn yn olynol. Roedd pob aelod a'i waith beunyddiol. Roedd Euros yn ddarlithydd yn Theatr Felin Fach , roedd John yn gweithio i Fanc Barclays, roedd Colin yn beiriannydd electronig yn gweithio i'r Swyddfa Bost, llyfrgellydd oedd Clive ac roedd Geraint yn rheoli theatr lawfeddygol yn Ysbyty Glangwili, ger Caerfyrddin. Dyma oes aur y byd roc/pop Cymraeg. Roedd lleoliadau perfformio dros Gymru gyfan, gyda digon o fandiau i gynal dawns neu gyngerdd ar bob nos Wener a nos Sadwrn drwy'r flwyddyn. Bu Eliffant yn perfformio ynddynt i gyd. Medi 3ydd, Theatr Clwyd, Wrecsam. Medi 29ain, Coleg Y Drindod, Caerfyrddin. Medi 30ain, Dre Fach, Felindre. Hydref 6ed, Dixieland, Y Rhyl. Hydref 7ed, Abertawe. Hydref 14, Felin Fach. Tachwedd, 17eg, Bangor. Tachwedd 22ain, Half Way, Nantgaredig. Rhagfyr 1af, Dixieland, Y Rhyl. Rhagfyr 22ain, Clwb Tan Y Bont, Caernarfon. Roedd y band hefyd yn recordio eitemau ar gyfer y radio a'r teledu i HTV a'r BBC. Recordiwyd y traciau cyntaf ar gyfer gwneud record yn Stiwdio Stacey Road, Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf i Saffari fentro cynhyrchu record, ac yn wir yr unig dro. Des Bennett o'r BBC oedd y peiriannydd, a'r cynhyrchydd oedd Richard Mainwaring. Aeth Richard ymlaen i weithio gyda artistiaid rhyngwladol fel Van Morrison. Yn ystod y sesiwn yma cafodd gymorth Endaf Emlyn a Myfyr Isaac. Wrth gwrs, roedd bechgyn Eliffant yn ddigon parod i fynegi barn, doedd dim diffyg hyder ym mysg y band o gwbl! Y caneuon a recordiwyd oedd 'Nôl Ar Y Stryd' a 'W Capten'. Ni ryddhawyd y recordiad.

Roedd y sain yn holl bwysig i'r band. Roedd ymarfer yn chwarae rhan allweddol i'w cynlyn. Ag eithrio Colin, doedd e' ddim yn canu, fu'r gweddill yn cwrdd yng nghartref Geraint yng Nghaerfyrddin, o amgylch y piano i ymarfer y lleisiau cefndyr a'r harmonïau. Ac unwaith yr wythnos fyddent yn cwrdd am ymarfer llawn. Felin Fach oedd y lleoliad gwreiddiol, ond roedd hi'n amlwg erbyn hyn bod angen lleoliad mwy canolog i gyfarfod. Dyma pan ddechreuodd y band eu cysylltiad hir gyda ardal Crymych yn Sir Benfro, yn enwedig y Crymych Arms. Roedd hi'n arferiad i gyfarfod yn y dafarn am beint neu ddau o Guinness, cyn mynd i ymarfer yn neuadd Ffynnon Groes neu ysgol fach Bryn Berian. Roedd y cyfarfodydd yma yn gymaint o achlysuron cymdeithasol ag unrhyw beth arall, ac weithiau fyddai'r Guinness yn cymeryd blaenoriaeth, ag aros yn y Crymych Arms wnelo'r bechgyn, a'r offer yn aros yn dawel yn y ceir. Sôn am offer, roedd hwn yn chwarae rhan bwysig iawn i sicrhau ansawdd y sain. Tua'r adeg yma, mewn cyfweliad gyda Clive Jones ar gyfer y cylchgrawn *Aspri*, rhestrodd Geraint offer y band:

Geraint:	Gibson SG gyda Di Marzio pickup.		Fender Twin Reverb.
John:	Fender Stratocaster.		Fender Twin Reverb.
Clive:	Rickenbacker Stereo bass,	Marshall 200w	4 x 15" cab
		Marshall 100w	4 x 12" cab
Colin:	Drymiau Hayman.	Symbalau Zildjan a Paiste.	
Euros:	Piano Fender Rhodes, synth Mini Korg. H&H 100w combo.		

Maes o law fyddai Geraint yn newid i gitâr Fender Telecaster Custom, John yn newid i Gibson 335 a Clive yn newid i bas Musicman gyda'i Marshall 200w a'r cab 4 x 12".

Ar y pryd roedd y band yn defnyddio offerynnau ac offer proffesiynol o'r safon uchaf, yn enwedig wrth eu cymharu â'r bandiau eraill y cyfnod.
Tua £150 i £200 oedd y tal am gig ym 1978 yng Nghymru. Arian da am y cyfnod!
Roedd bob ceiniog yn cael ei fuddsoddi yn y system sain (PA). Dyma'r manylion:

Desg M&M 16-sianel i gymysgu.
Pâr o gyrn JBL.
Pâr o gabinetau JBL 2 x 15".
Pâr o seinyddion JBL 2 x 15" mewn biniau bas Martin.
Chwyddleisydd stereo H&H 500watt.
Meicroffon Shure SM58 a SM 57, a meic Shure D12 ar gyfer y drwm bas.

Prynwyd y biniau Martin anferth oddi wrth gwmni sain Saffari, ar ôl iddynt rhoi'r gorau i'r busnes. Prynwyd pedwar seinydd-llawr ar gyfer y llwyfan. Yn y diwedd roedd pwer y PA yn sylweddol. Roedd 2000w yn mynd mas a 1000w yn dod yn ôl i'r llwyfan drwy'r seinyddion-llawr. Fu Colin yn brysur yn weldio ffrâm i ddal y cyfan, sef tri chwyddleisydd H&H. Roedd yr holl beth yn pwyso tunnell, ac fel Mur Mawr Tsieina, yw weld o'r gofod! Dyma oedd y PA mwyaf pwerus a safonol yn y byd roc/pop Cymraeg ar y pryd. Roedd gan Eliffant dri pheiriannydd a oedd yn gweithio gydant yn rheolaidd yn cymysgu'r sain a chario'r offer, (Ynghyd ag aelodau'r band wrth gwrs!), Tudor Ellis, Jeremy Gleave ag Emyr Bowen. Mae Tudor nawr yn ddyn camera newyddion gyda HTV. Mae Jeremy yn beiriannydd gyda BT, ag Emyr yn beiriannydd sain gyda chwmni teledu Barcud yng Nghaernarfon.
Erbyn diwedd 1978 roedd Eliffant yn medru edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus iawn. Roeddent wedi ennill enw da fel band llwyfan safonol a gwefreiddiol a hoffai chwarae'n UCHEL! Roedden wedi dechrau creu dilyniant, ac wedi ennill parch y cerddorion eraill yn y sîn Cymraeg. Roedd yr aelodau yn ymfalchïo i fod yn "fois y wlad" o orllewin gwyllt Cymru, gyda'i bwriad o greu y gerddoriaeth gorau o fewn eu galli, yn ddigyfaddawd. Roedd eu hymroddiad yn gant y cant heb os. Daeth blwyddyn dda i ben, a gwelwyd traddodiad Eliffantaidd pwysig yn cael ei sefydlu ar Ragfyr y 9ed, yn yng ngwesty'r Harbwrfeistr ar y cei yn Aberaeron, Ceredigion. Dyma'r parti 'Dolig Eliffant cyntaf, nid yr olaf, ond efallai y gorau. Roedd pethau yw dathlu, a hefyd pethau yw trafod. Roedd hi'n amser paratoi gwneud record hir.

Ar ddechrau 1979, ar y 9ed o Ionawr aeth Eliffant i stiwdio y BBC Llandaf i recordio eitem ar gyfer y rhaglen 'Twndish'. Roedd Twndish yn rhaglen bwysig a llewyrchus. Darlledwyd y rhaglen ar y dydd Sul canlynol. Ar y rhaglen gyda Eliffant oedd Geraint Watkins a'r Dominators, a The Nicotinos. Mae'n rhaid fod y rhaglen yn ddwy ieithol, doedd Geraint Watkins ddim yn enwog am ei waith Cymraeg, dwy ddim yn siŵr am The Nicotinos! Y cyflwynydd oedd Iestyn Garlick a'r cyfarwyddwr oedd Pete Edwards. Yn fuan ar ôl Twndish aeth Pete ymlaen I gyfarwyddo rhaglennu cynnar 'Eastenders'. Y cynhyrchydd oedd yr enwog Ruth Price. Ar nos Sadwrn yr 20ed gwelwyd Eliffant mewn dawns yn Llangadog, yng nghysgod y Mynydd Du. Mae llawer yn ardal tre Caerfyrddin yn dal i gofio'r noson, trefnwyd bws i gludo criw o'r dre I'r ddawns. Yr adeg hynny roedd pawb yn cefnogi gigs Cymraeg, yn cynnwys pobl di-Gymraeg yr ardal. Noswaith dda yw noswaith dda, ta beth yw'r iaith, os odi'r gerddoriaeth yn dda! Roedd noson fawr arall yn cael ei chynal ar nos Sadwrn, Ionawr y 27ain. Y lleoliad oedd Tal Y Bont ger Aberystwyth, ar achlysur oedd noson ffarwel HERGEST, y band acwstig-trydanol fu'n canu trwy Gymru ers 1971. Bu Geraint yn chwarae gitâr ar eu record hir *Glanceri,* ac roedd e'n bwriadu chwarae gitâr yn eu sioe olaf. Yn anffodus daeth storom o eira I chwalu ei gynlluniau, a methodd gyrraedd y gig. Fel'na mae ar hewlydd cefn gwlad ynt efe!
Gaeafol oedd hewlydd gorllewin a gogledd Cymru ar nos Iau, Chwefror 15ed. Roedd yr eira'n drwchus dros y wlad ac yn dal i fwrw. Eliffant penderfynol iawn oedd yn araf symud ar hyd arfordir gorllewinol y wlad. O Gaerfyrddin i Aberystwyth ar hyd y ffordd arferol, ond wedyn roedd rhaid dilyn y ffordd hir drwy Borth, Y Bermo a Harlech, tra'n ceisio osgoi y lluwchion oedd erbyn hyn dros bedair troedfedd mewn rhai llefydd. Roedd hi'n ganol nos erbyn i Eliffant lithro'i ffordd i mewn i bentref Llandwrog yn Sir Caernarfon. Drannoeth roeddent I ddechrau recordio eu record hir cyntaf yn stiwdio Sain Gwernafalau. Hen feudy wedi ei addasu. Ddigon da! Y cynllun oedd i recordio'r set llwyfan heb newid dim, fel fyddai'r record a'r perfformiadau byw driw yw gilydd. Felli dim gor- gynhyrchu. i ddweud y gwir yr unig effeithiau a ddefnyddiwyd yn y stiwdio oedd "reverb". Cynhyrchwyd y record gan hen ffrind Geraint, Hefin Elis a oedd yn aelod o Sain, a'r band. Y peiriannydd oedd Bryn Jones. Roedd y caneuon I gyd wedi eu hysgrifenni'n barod heb law am 'Seren I Seren' a'i hysgrifennwyd yn y stiwdio. Dyma restr y traciau:

Nol ar y Stryd.
Breuddwyd.
Lisa Lân.
Nôl I Gairo.
Seren I Seren.
Serena.
Ŵ Capten.
Ble 'Rwyt Ti?
Teulu Mawr y Byd.

Geraint oedd cyfansoddwr yr holl ganeuon heb law am Serena a ysgrifennwyd gan Geraint a'I ffrind a chyn aelod o Injaroc, Endaf Emlyn. Recordiwyd y record dros chwe diwrnod, Chwefror 16, 17, 18, a Mawrth 23, 24, a 25. Mae y teitl 'M.O.M', yn sefyll am 'Mas o ma', dywediad cyffredin iawn yn Nyfed wrth gwrs. Teitl addas iawn am record sy'n cynnwys cymaint o ganeuon am y gofod.

Mae ochr un yn cynnwys caneuon roc, yn delio gyda phynciau amrywiol , ond caneuon dawns bob un. Mae ochr dau yn fath o "concept album", y math o beth oedd yn ffasiynol ar y pryd. Caneuon am y gofod. Roedd diddordeb am y gofod ar gynydd ym 1979, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru. Cyhoeddwyd llyfrau fel 'The Dyfed Enigma' gan R.J.Pugh a F.W Holiday, yn sôn am bethau rhyfedd yn cael eu gweld yn yr ardal. Roedd hyd yn oed papurau fel 'The Carmarthen Journal' yn bwydo'r cynnwrf. Roedd stori yn nhudalennau'r papur am fenyw lleol a welodd loeren neu long ofod o ryw fath yn glanio yn agos i bentref Idole, ger tre Caerfyrddin. Roedd hyn yn ysbrydoliaeth i Geraint i gyfansoddi'r gan 'Capten Idole' a recordiwyd ar y record hir *Halen Y Ddaear.* Can am deithiwr o blaned arall sydd ar farw, ac wrth chwilio'r gofod am fyd newydd yw bobl, yn darganfod Y Ddaear, ac yn enwedig Cymru. Mae yn cysylltu 'nol ac yn eu hannog i ymuno ag ef mewn "gwlad fach, tir iach, cartref rhwng mor a mynydd". Mae M.O.M. yn datblygu'r stori ymhellach, ac yn cynnig ychydig o gefndir i'r hen Gapten. Cynllunydd y clawr oedd Wyn ap Iestyn o gwmni O'r Niwl. Mae'n dangos astronot yn hongian yn y gofod. Addas iawn. Fe gafodd y record dderbyniad da. Dywedodd Caryl Parry Jones yn *Y Faner* fod y record "yn gampwaith"! Roedd Denver Morgan yn y cylchgrawn *Sgrech* yn annog pobl fel hyn: "Dawnsiwch i ochr un, gwrandewch ar ochr dau". Mae Denver yn disgrifio'r record fel "Roc gafaelgar cynhyrfus wedi eu chwarae'n dynn ac yn broffesiynol". Ysgrifennodd Hefin Wyn yn Y Cymro: "Chwarae diwastraff sicr a thriw a llais hyfder".

Dros y misoedd nesaf bu'r band yn hyrwyddo'r record newydd ar lwyfan. Pontyberem ar nos Wener,Chwefror 23ydd. Bangor ar nos Wener, Mawrth 9ed a Llangadog ar y noson ganlynol.Ar nos Sadwrn y 1af o Fehefin roedd y band yn rhanni llwyfan gyda Geraint Jarman a'r Cynghaneddwyr, ym Maesteg. Dawns oedd yn rhan o ddigwyddiadau ymylol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Anaml iawn fu'r ddau fand yn rhanni llwyfan. Mae'n debyg fod Jarman ag Eliffant yn cystadlu am yr un gynulleidfa, a doedd y gynulleidfa honno ddim yn medru ymdopi a'r syniad o gefnogi mwy nag un band. Eliffant neu Jarman, Jarman neu Eliffant, ond nid y ddau! Dyna fel oedd hi yn '79. Ar nos Iau, Mehefin y 21ain roedd y band yn y Neuadd Fawr, Prif Ysgol Aberystwyth. Dyma oedd uchafbwynt gyrfa'r band mor belled. Gig a hanner! Roedd Nic Parry yno ar ran *Sgrech.* Dyma ysgrifennodd:

"Roedd y llawr yn orlawn pan ffrwydrodd y grŵp i gyflwyniadau cynhyrfus o 'Nol Ar Y Stryd', 'Lisa Lan' a'Nol I Gairo'…swyn nodau hudolus 'Ble Rwy Ti', 'W Capten' (grêt!) a 'Teulu Mawr Y Byd'. Mae'r ddwy olaf yn prysur dyfu'n anthemau a'r gynulleidfa yn morio canu'r cytganau…Mae Eliffant bellach wedi profi eu hunain ar blastig ac yn Aberystwyth profasant eu hunain ar lwyfan."

Dyma restr o'r gigs nesaf:
Nos Gwener Mehefin 9ed, Felin Fach.
Nos Fawrth Awst 7ed, Y Majestic, Caernarfon.
Dydd Iau Awst 9ed, Maes yr Eisteddfod.
Roedd y ddau gig olaf yn ystod yr Eisteddfod Genedleithol yng Nghaernarfon.
Bu chwe gig arall ym 1979:
Nos Sadwrn Awst 25ain, Pontyberem.
Nos Wener Medi 21ain, Llangefni.
Nos Wener Hydref 5ed, Tan Y Bont, Caernarfon.
Nos Fercher Hydref 24ain, Blaendyffryn, Llandysul.
Nos Wener Tachwedd 9ed, Y Neuadd Fawr, Aberystwyth.

Nos Fercher Tachwedd 14, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.
Roedd y bois yn dal i ddod at eu gilydd yn wythnosol i ymarfer, bob nos Fercher yng Nghrymych, ar ôl cyfarfod yn y Crymych Arms. Cafodd sengl ei chyhoeddi tua'r amser yma gan MACYM, sef Mudiad Adloniant Cymraeg Ynys Môn. Defnyddiwyd y recordiad o 'Seren I Seren' a 'Lisa Lan' o *M.O.M*. Fu'r sengl yma boblogaidd iawn ar "jukeboxes" caffis a thafarnau ledled Cymru, ac yn rhannol gyfrifol am dwf poblogrwydd y band hefyd. Daeth tystiolaeth o'r poblogrwydd hyn pan gaeth Eliffant ei benodi fel Prif Grŵp Roc '79 gan ddarllenwyr *Sgrech*.
Dechreuodd 1980 yn llewyrchus iawn i'r band. Ar nos Sadwrn Ionawr 19, gwelwyd hwy yng Nghaernarfon I dderbyn tlws Sgrech. Dyma'r canlyniadau yn gyflawn:

Prif Grŵp Roc:	Eliffant.
Prif Grŵp Gwerin:	Plethyn.
Prif Ganwr Unigol:	Tecwyn Ifan.
Prif Gantores:	Rhiannon Tomos.
Grŵp Addawol y Flwyddyn:	Chwarter I Un.
Offerynnwr Gorau:	Tich Gwilym.
Gwobr arbennig Sgrech:	Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr.

Dyma a ysgrifennwyd yn *Sgrech* ar y pryd:
"Does dim sydd heb ei ddweud am **Eliffant** erbyn hyn. Enillwyr llwyr haeddiannol prif dlws Noson Wobrwyo Sgrech ac efallai ein grŵp mwyaf cerddorol."
Ar ôl y noson fawr yma, parhaodd y flwyddyn gyda gigs a gwaith teledu:
Dydd Mercher Ionawr 13, Stiwdio 123, Stryd Bute, Caerdydd.
Dydd Mawrth Ionawr 29ain, HTV, Pontcana, Caerdydd.
Nos Sadwrn Mawrth 1af, Clwb Pwerdy Niwclear, Trawsfynydd.
Nos Wener Mawrth 7ed, Blaendyffryn, Llandysul.
Nos Sadwrn Ebrill 5ed, Tan Y Bont, Caernarfon.
Nos Wener Ebrill 25ain,Plas Coch, Sir Fôn.
Dydd Mawrth Ebrill 29ain, HTV, Pontcana, Caerdydd.
Nos Wener Mai 9ed, Neuadd Llandysul.

Yn ystod gwanwyn '80 fu'r band yn trafod recordio record hir arall. Roedd *M.O.M* wedi cael derbyniad da, ac yn nhermau yr adeg, wedi gwerthu'n dda. Yn ddigon da i Sain ystyried gwneud un arall. Erbyn hyn roedd Sain wedi symud o hen feudy Gwernafalau i leoliad newydd rhyw filltir neu ddau lawr yr hewl. Adeilad newydd sbon wedi cynllunio a'i adeiladu at y pwrpas o recordio yn cynnwys stiwdio fawr, swyddfeydd, gweithdai, stordai, cegin a ystafelloedd i ymlacio. Hwn oedd pencadlys Cwmni Recordiau Sain Cyf. Roedd y caneuon eisoes wedi eu hysgrifennu, a'r cynllun oedd I recordio'r albwm newydd yn yr haf. Hefin Elis ac Eliffant fyddai'n cynhyrchu, ond roedd y band am ddefnyddio peiriannydd o'r tu allan i'r sîn Cymraeg, er mwyn dod â phersbectif ffres a gwahanol i'r broses. Roedd profiad gan Phil Ault o weithio gyda bandiau proffesiynol yn Lerpwl, ac fe gytunodd i wneud y gwaith. Felly ar nos Iau Mehefin 19eg, aeth Eliffant a'u criw cynyddol I aros yng ngwesty Tan Dinas ger traeth Dinas Dinlle. Gyda nhw oedd eu criw llwyfan sef Tudor Ellis, Jeremy Gleave a Bernard 'Bun' Davies. Dros y pedwar diwrnod nesaf, Mehefin 20, 21, 22 a 23ain, recordiwyd y traciau sylfaenol ar gyfer *Gwin Y Gwan*. Roedd Phil Ault ag Eliffant yn cydweithio'n dda gyda'u gilydd, ac erbyn y penwythnos trodd Eliffant am y De gyda

chopïau casét o'r traciau amrwd offerynnol I ystyried ychwanegu y prif offerynnau a'r lleisiau.
Roedd y band yn brysur o hyd:
Nos Wener Mehefin 27ain, Tal Y Bont, Aberystwyth.
Nos Sadwrn Gorffenah 26ain, Corwen.
Hefyd, roedd y bois yn hapus i logi y system sain (PA) i fandiau eraill, er enghraifft Edward H. Weithiau, tra'n llogi'r PA, byddai Eliffant yn chwarae i agor y sioe, dim ond er mwyn yr hwyl o chwarae! Ar ddydd Iau Gorffennaf 31ain roedd hi'n amser mynd 'nol i'r stiwdio i orffen yr albwm. Gwnaethpwyd hyn dros benwythnos y 1af, 2 a'r 3ydd o Awst. Fel hoe fach, fe berfformiodd y band yng nghlwb Tan Y Bont, Caernarfon ar y nos Sadwrn, ac i ddangos i Phil Ault eu bod yn medru chwarae'n fyw hefyd. Y gynhaliaeth bwysicaf dros gyfnod y recordio oedd hoff ddiod y bois sef Guinness. Mae'r lluniau a dynnwyd o'r cyfnod gan aml yn cynnwys tun agored o'r hylif du rhywle yn y ffrâm. Mae'n deg i ddweud fod y band yn ffans o 'Wncwl Arthur', pawb ond am Colin a oedd yn Formon brwdfrydig ar y pryd. Felli gan fod can o'r enw *Gwin Y Gwan* ar y record hir, a chan ei bod yn recordiad arbennig o gryf, penderfynwyd defnyddio'r gan fel teitl i'r albwm. Cysylltodd Sain gyda phencadlys Guinness yn Nulyn i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio cynllun y label fach grwn oddi ar ei boteli cwrw ar glawr y record. Wedi'r cyfan Gwin Y Gwan oedd yr enw Cymraeg am Guinness. Roedd y cwmni wedi cynhyrchu hysbysebion yn yr iaith Gymraeg ers blynyddoedd maith. Felly siomedig iawn oedd y band i glywed mae ateb Guinness i'r cais oedd Na! Er hynny, penderfynwyd comisiynu yr artist grapheg Charli Britton I gynllunio clawr byddai'n adlewyrchu y pecyn-chwech adnabyddus. Heb sathru ar unrhyw hawlfraint, llwyddodd Charli a'r band greu clawr trawiadol sydd yn glasur hyd heddiw. Barn bersonol yw hwn wrth gwrs!

Roedd yr albwm yn y siopau erbyn wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis yn sôn am ddiwedd Awst. Eto roedd thema i'r caneuon, wel, tair ohonynt. Roedd y tair can olaf ar ochr un y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi'r cyfan, band roc-gwerin oedd Eliffant, er nad oedd hyn yn cael ei gydnabod ar y pryd! Dyma'r traciau:

Gwin y Gwan.
Gole Gwyn.
Merthyr.
Cân y Mynydd Du.
Ffair Caerdydd.
Y Falen Fawr.
Llosgi'r Pontydd.
Ffŵl Ebrill.
Waun Uchaf.
Mâs O'r Coed.

Cafodd yr albwm dderbyniad cymysg. Roedd peth beirniadaeth o'r record am swnio'n or-Eliffantaidd. Athroniaeth y band oedd i greu eu sŵn llwyfan ar record, a hefyd i aller ail-gynhyrchu y record ar lwyfan. Felly roedd osgoi gor- gynhyrchu yn y stiwdio yn holl bwysig i'r bois. Mae pob beirniadaeth wedi ei seilio ar agwedd bersonol beth bynnag, ac yn aml roedd y beirniadaethau yn gwrth-ddweud ai gilydd. Roedd 'na chanmoliaeth wrth gwrs. Dyma enghreifftiau o'r math o beth a ysgrifennwyd:

Gwin y Gwan: "Fe fyddai'r trac yma'n gwneud sengl bendigedig, un a ddylai fod ar sgrech flwch (jukebox) pob tafarn." (Carmarthen Times)

"Can drawiadol yn null *'Nol ar y Stryd , yw hon gyda chytgan arbennig o gofiadwy." (Sgrech)*

Ffair Caerdydd: "Llwyddiannus dros ben…mae'r geiriau ar ffurf hen benillion ac yn ddiniwed o brydferth." (Y Cymro)

Llosgi'r Pontydd: "Y naws mytholegol ac angerddol yn y gan yma, sy' wedi gadael yr argraff mwyaf arnaf." (Sgrech)

Ffwl Ebrill: "Gweithio'n hynod o lwyddiannus.O'r cyflwyniad tawel nodedig, i'r diweddglo cynhyrfus." (Y Faner)

Wrth wrando ar y record nawr (2000), pŵer sŵn y band sy'n fy nharo. Doedd bron dim effeithiau wedi eu defnyddio wrth recordio, ac fel M.O.M., dim ond ychydig o adlais,"reverb" a pheiriant corws Eventide ar y lleisiau. Mae'r sain yn cynnwys y gic yna sy'n nodweddiadol o'r saithdegau, offerynnau go iawn a chwyddseinyddion falf wedi eu troi lan i un deg un! Ond dwy hefyd yn meddwl fod yr ysgrifen ar y mur erbyn hyn. Roedd y band yn dibynnu ar Geraint am y caneuon, ac roedd hyn yn gyfyngol i raddau. Band roc oedd Eliffant yn y bon, ond roedd gwreiddiau Geraint yn eclectig. Ei brif ddiddordebau cerddorol ar y pryd oedd gwerin, roc-gwlad, pop a ffync! Roedd ei ganeuon yn tueddu i fod yr un mor amrywiol. O rhan testun os nad triniaeth. Roedd y mwyafrif o'r feirniadaeth yn sôn am ddiffyg amrywiaeth, sydd yn eironig.
Yn ôl y traddodiad Celtaidd, fe gafodd Eliffant ei fis mêl a'i oes aur, ond daw diwedd ar bopeth, ac roedd diwedd Eliffant wedi dechrau. Araf fu y broses, ac roedd gigs yw perfformio.

Nos Lun Awst 4ydd, Twrw Tanllyd, Eisteddfod Genedlaethol Abertawe.
Nos Fawrth Awst 5ed, Y Glen, Llanelli.
Nos Sadwrn Medi 20, Tan Y Bont, Caernarfon.
Nos Wener Tachwedd 7ed, Dixieland, Y Rhyl.
Nos Sadwrn Tachwedd 8ed, Tan Y Bont, Caernarfon.
Nos Sadwrn Tachwedd 22ain, Corwen.
Nos Wener Tachwedd 28, Plas Coch, Sir Fôn.

Cynhaliwyd Parti Nadolig Eliffant ar nos Sadwrn Rhagfyr 20ed. Dyma'r un olaf i'r aelodau gwreiddiol o'r band.
Aeth trefni ymarferion yn fwy anodd, doedd pob aelod ddim yn medru cynnig ymroddiad llwyr i'r band o achos eu diddordebau amrywiol. Yn enwedig Colin. Roedd cyfrifoldebau teuluol a galwadau ei waith beunyddiol yn achosi problemau iddo i drefni amser rhydd gyda'r hwyr yn ystod yr wythnos. Roedd Colin a Clive yn teithio gyda'u gilydd i'r ymarferion, ond er hynny, aeth yn fwy anodd i gael Colin i Grymych ar nosweithiau Mercher. Roedd gan Colin seler anferth o dan y tŷ yn Broad Haven, Sir Benfro. Cytunwyd i gynnal yr ymarferion yno. Trefnwyd yr ymarferion yma ar y penwythnosau fel na byddent yn ymyrrid gyda galwadau Colin yn ystod yr wythnos.

Perfformiodd y band mewn wyth gig ym 1981:

Nos Wener Chwefror 20ed, Top Rank, Caerdydd.
Nos Sadwrn Chwefror 28ain, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.
Nos Wener Mawrth 20ed,Y Pier, Aberystwyth.
Nos Wener Ebrill 10ed, Plas Coch, Sir Fôn.
Nos Lun Ebrill 20ed, Blaendyffryn, Llandysul.
Nos Sadwrn Mehefin 13, Tan Y Bont, Caernarfon.
Nos Wener Gorffennaf 3ydd, Plas Coch, Sir Fôn.
Nos Iau Awst 6ed, Twrw Tanllyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar ddydd Llun Awst 17eg, perfformiodd y band set gyfan o flaen y camerâu yn stiwdio HTV yn Pontcana, Caerdydd ar gyfer rhaglen oedd yn rhan o gyfres Roc Sêr. Y cyfarwyddwr oedd Endaf Emlyn, ac roedd yn llwyddiant mawr. Darlledwyd y rhaglen ddwy waith dros y flwyddyn ganlynol, yn dystiolaeth barhaol fod Eliffant ar ei orau ar lwyfan yn chwarae'n fyw.

Doedd dim llawer ym 1981 ir band yw ddathlu. Roedd Eliffant yn dechrau colli stem, roedd ambell aelod yn colli brwdfrydedd, ac roedd y gigs yn dechrau troi'n faich. Roedd yr hewl i'r Gogledd, lle'r oedd y mwyafrif o'r gigs ar y pryd, yn teimlo fel ei bod yn mynd yn hirach ac yn hirach. Doedd y band ddim yn ymarfer mor aml, a llawer o'r ymarferion yn cael eu gohirio. Pan llwyddodd Colin i gyrraedd yn hwyr am ymarfer yng nghartref ei hun, roedd hi'n amlwg fod y diwedd wedi dod. Daeth Eliffant i ben yn dawel. Yn ddiffys, heb ddadl na chwympo mas. Penderfynwyd gadael y creadur i farw yn dawel yn ei gwsg. Roedd y bechgyn yn dal i fod yn ffrindiau, roedd hyn mor bwysig ag unrhyw beth iddynt. Grŵp cymdeithasol oedd Eliffant yn y bon, ac fe wahanodd y bois tra'n dal yn ffrindiau. Doedd dim Parti Nadolig y flwyddyn honno, ond cyn hir fe fyddai un yn cael ei drefni, ac fe fyddau Eliffant arall i'w glywed yn swnian yn nyfnder Sir Aberteifi.

ELIFFANT-Stori Wir! Rhan 2.

Fe gadwodd Geraint, John, Clive ac Euros mewn cysylltiad ar ôl chwalu Eliffant. Roedd hi'n amlwg fod y diddordeb yn y gerddoriaeth yno o hyd. Yn wir, dros y misoedd, tyfodd yr awydd i atgyfodi'r band. Roedd y bechgyn yn gweld eisiau y joio, y perfformio a bod yn swnllyd! Doedd Colin ddim yn rhan o'r cynllun, yn wir, roedd hi'n amlwg i bawb ei fod yn gweld diwedd y band fel rhyddhad o ddyletswydd a aeth yn faich. Felly, roedd y pedwar aelod arall yn derbyn os oedd dyfodol i Eliffant, fyddai angen drwmwr newydd. Yn ystod tymor yr Hydref 1981, bu sawl drwmwr yn derbyn gwrandawiad, ond roedd un yn sefyll ben ac ysgwyddau dros y gweddill. Roedd Gordon Jones, o ardal Lanbed, wedi dod 'nol ar wyliau o Lundain, lle'r oedd yn gweithio ar y pryd. Roedd Gordon yn adnabod Euros, a phan glywodd am y gwrandawiadau, fe gysylltodd ag ef. Roedd steil Gordon yn dra gwahanol i steil Colin. Drwmwr roc oedd Colin, a oedd yn taro'r crwyn yn gadarn. Roedd gan Gordon steil mwy ysgafn a oedd yn fwy addas i'r math o gyfeiriad roedd caneuon newydd Geraint yn arwain. Fe gytunodd Gordon I ymuno â'r grŵp, a symudodd yn ôl o Lundain o fewn wythnosau.
Dechreuodd y band ymarfer yn Felin Fach, a dros yr wythnosau roedd hi'n amlwg fod sŵn y band yn newid. Roedd cyfraniad Gordon yn rhannol gyfrifol am hyn, ond hefyd roedd y cyfansawdd offerynnol wedi newid. Newidiodd Clive ei fas Rickenbacker am fas Musicman. Roedd John yn defnyddio Gibson 335 yn lle's Fender Stratocaster. Roedd Euros yn defnyddio dau synth Korg yn ogystal â'r Fender Rhodes. Ac roedd Geraint wedi newid y Gibson SG am Fender Telecaster Custom. Hefyd, roedd Geraint yn defnyddio piano trydan Wurlitzer ar ambell gan. Roedd pethau'n mynd yn dda, ac I ddathlu, trefnwyd Parti Nadolig Eliffant (ychydig yn hwyr) ar Ionawr 30ain. Chwalwyd traddodiad trwy ei gynnal yn Hwlffordd, Sir Benfro.
Er nad oedd yr Eliffant newydd wedi perfformio'n fyw eto, cymaint oedd eu henw da, fe gynigodd y BBC gyfle iddynt recordio pedair cân ar gyfer rhaglen radio *Sosban* a ddarlledwyd bob bore Sadwrn. Recordiwyd y set yn stiwdio Dafydd Pierce, Stiwdio 1-2-3, Stryd Bute, Caerdydd. Dyma'r caneuon:

Gwylio Arna' i.
Protea.
Diwedd Y Gaeaf.
Esger.

Rhyddhawyd record hir gan y BBC gyda'r teitl *Sesiwn Sosban* (SAIN 1269H) yn cynnwys Gwylio Arna' i . Yr artistiaid eraill oedd Urien, Angylion Stanli, Maffia Mr. Huws, Derec Brown A'r Racaracwyr, Y Newyddion, Anghenfil, Siân Wheway, Rocyn a Canna. Roedd y bois yn hapus gyda recordiadau Stiwdio 1-2-3 ac yn bwriadu eu defnyddio wrth drafod cytundeb newydd am drydydd albwm ar label Sain. Ond yn gyntaf roedd rhaid dechrau perfformio'n fyw eto.

Bu'r band yn ymarfer dros y gaeaf ar ddiwedd 1981 yn ardal Crymych, ond erbyn Gwanwyn '82 Felin Fach oedd y ganolfan iddynt, gan amlaf yn y Theatr yno ar ddydd Sul. Dal yn bwysig oedd yr ochr gymdeithasol, ac os oedd Eliffant I bara roedd e'n gorfod bod yn hwyl. Roedd neuadd y pentref, Llanpumsaint yn ganolfan ymarfer hefyd, a'r mwyaf canolog. Perfformiad cyntaf Eliffant ar ei newydd wedd oedd ar nos Lun, Ebrill 12, ym Mlaendyffryn, ger Llandysul. Maen anodd credi wrth ysgrifenni hwn yn y flwyddyn 2000, ei bod hi'n bosib trefni ddawnsfeydd llwyddiannus mor gynnar yn y flwyddyn, yng nghanol Sir Gâr, gyda grŵp Cymraeg, ar nos Lun! Ond yn y dyddiau hynny roedd hi'n bosib trefnu gigs Cymraeg ar unrhyw noswaith o'r wythnos, a byddai torf yn dod, yn sicr o joio a chael noson dda. Roedd yr ail gig hefyd ar nos Lun, yn Ysgol Rhydfelen, Pontypridd. Dyma restr o'r gigs am 1982:

Nos Iau Awst 5ed, Y Ganolfan Hamdden, Abertawe.
Dydd Sadwrn Medi 18eg, Blaendyffryn. Dros ddeuddeg awr o gerddoriaeth roc a recordiwyd gan y BBC ar gyfer Radio Cymru.
Dydd Gwener Medi 24ain, ar gyfer rhaglen i HTV, Caerdydd.
Dydd Mawrth Hydref 5ed, ar gyfer rhaglen i'r BBC, Caerdydd.
Dydd Llun Hydref 11, ar gyfer rhaglen i HTV, Caerdydd.
Dydd Iau Hydref 21ain, ar gyfer rhaglen i HTV, Caerdydd.
Nos Fercher Hydref127ain, gig yn Aberystwyth.
Nos Fercher Rhagfyr 22ain, Y Star Motel, Geirwen, Sir Fôn.

Gwelodd 1983 Eliffant yn symud i diroedd newydd. Roedd HTV am wneud fideo gyda'r band. Nid fideo o'r bois yn perfformio, fel arfer, ond dehongliad dramatig o un o'r caneuon, sef 'Gwin Y Gwan'. Fu gofyn i Geraint, John a Gordon chwarae rhan tri chardotyn yn crafu bywoliaeth yn nociau Caerdydd. Roedd John a Gordon yn llawn brwdfrydedd, yn taflu eu hunain i'r gwaith, John yn llythrennol! Chwarae rhan tri alcoholig yn eistedd o amgylch tan agored ar faes adeiladu oeddent. Mae'r fideo yn dangos John yn syrthio i'r tân. Roedd gofyn iddo wneud hyn sawl gwaith, felly yw natur ffilmio. Roedd John yn ymddangos yn or-awyddus i daflu ei hunan i'r fflamiau, ond fe bwyllodd ar ôl derbyn cyngor y criw o'i amgylch fod pethau'n mynd yn beryglus. Yn y fideo terfynol gwelir John yn dal cyllell yn fygythiol, yn ogystal â busnes y tân wrth gwrs, gwelir Gordon yn edrych yn hynod o drist a diniwed, a gwna Geraint ei orau i edrych yn feddylgar a diddorol! Llawer o hwyl, ond ni wnaeth delwedd y band elwa rwy'n ofni! Doethineb rwy'n tybed achosodd Euros a Clive i wrthod y cyfle a'r camerâu. Diolch byth, dyma'r unig dro i'r band fentro ar hyn o beth!
Ar nos Sadwrn Chwefror 26ain, perfformiodd y band yng nghlwb Tan Y Bont, Caernarfon am y tro olaf. Fel cymaint o leoliadau a oedd yn cynal gigs Cymraeg ar y pryd, mae wedi cau. Sy'n wir am Blaendyffryn, Plas Coch, Star Motel, sawl neuadd goffa, neuadd pentref a thref. Ar Ebrill 18ed roeddent nôl yn stiwdio HTV, Caerdydd i recordio tair can newydd, 'Emyn Y Tad', 'Can Y Crwydryn' a 'Gole Gwyn'. Dim ond 'Gole Gwyn' sydd ar record *Gwin y Gwan*. Nos Sadwrn Ebrill 30ain roedd gig yn Llanbed, nos Sadwrn Mai 21ain un yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin; nos Sadwrn Mehefin 4edd, gig yng Nghaerdydd.
Doedd y trafodaethau gyda Sain am drydydd albwm ddim yn mynd yn dda. Roedd y band yn awyddus i fynd i'r stiwdio eto, ond roedd Sain yn llau awyddus i hyn i ddigwydd. Roedd Hefin Elis, a fu'n gynhyrchydd ar y cyd ar *Gwin Y Gwan*, arbennig o rwystredig. Roedd Hefin hefyd yn gyfarwyddwr yn y cwmni, ac roedd yn bendant

na fyddai Sain yn barod i fuddsoddi rhagor o amser stiwdio yn y band tan fod eu gwerthiant recordiau yn gwella, trwy gynyddu wrth gwrs. Dyma'r adeg pan fyddai band Cymraeg yn hapus iawn gyda gwerthiant o 2000 o recordiau, ac yn wir, byddai 1000 o werthiant yn barchus. Roedd hi braidd yn optimistaidd i ddisgwyl gwerthiant gwell na'r arferol oddi wrth Eliffant, ac mewn gwirionedd roedd y band yn dioddef effaith y dirwasgiad mewn gwerthiant recordiau fyddai'n effeithio'r byd yn gyfan cyn hir. Dyma'r adeg pan gwelwyd poblogrwydd CDs ar gynydd, a'r gwrthwyneb yn digwydd i boblogrwydd recordiau finyl.

Fe aeth y ddadl rhwng Sain ag Eliffant braidd yn chwerw, yn wir, mi aeth ar stop. Felli, yr unig ateb i'r band oedd mynd ati i sefydlu label recordio eu hunan. Doedd y bechgyn ddim yn gytun ynglŷn ar ddewis o ddeunydd ar gyfer y record newydd. Geraint oedd yn dal i fod yr unig gyfansoddwr, a doedd pawb ddim yn hollol gyfforddus a chyfeiriad newydd y caneuon diweddaraf. Caneuon oedd yn llai o roc nag arfer, a mwy o faledi. Caneuon hefyd oedd yn galw am safon offerynnol uwch nag o'r blaen. Er hynny, penderfynodd y band fynd ati i recordio yn stiwdio Richard Morris, Stiwdio'r Bwthyn yng Nghwm Twrch ger Dyffryn Tawe. Roedd Richard yn adnabyddus iawn ar y pryd fel gitarydd a fu'n gweithio gyda'r band Ail Symudiad. Y bwriad oedd i recordio sengl yn gyntaf, ac os fyddai honno'n gwerthu'n dda, mynd ati i wneud albwm wedyn. Ochr 'A' fyddai can newydd, 'Ti Yw'r Unig Un I Mi', cân roc anghymhleth, gyda gwaith Euros ar yr organ Hammond yn allweddol. Roedd ochr 'B' i fod yn fersiwn newydd o gân acwstig ysgrifennwyd gan Geraint rhai blynyddoedd cynt, 'Tywyllwch'. Cân roc oedd hon yn defnyddio arddull func yn y rhagarweiniad a rhwng y penillion. Y ddwy gân yn ganeuon pop yn y bon.

Recordiwyd y traciau sylfaenol dros benwythnos Mehefin 11eg a'r 12eg, recordiwyd y lleisiau a'r gitâr blaen ar Fehefin 19eg. Cymysgwyd y ddwy gân gan Geraint a Gordon ar ddydd Iau Mehefin 23ain. Douglas Williams, ffrind i Gordon cynlluniodd y clawr. Defnyddiwyd du a gwyn i arbed costau. Enw'r label recordio newydd oedd **LLEF**, acronym am Llais Ei Feistr.

Mae'r logo yn dangos eliffant a'i glust mewn trymped gramoffon hen fasiwn, parodi ar logo adnabyddus HMV sy'n defnyddio ci bach yn lle eliffant wrth gwrs. Daeth y syniad i'r bois yn nyfnderau myglyd tafarn y Fishers yng Ngellan ger Llanbed. Lluniwyd y logo yn hyfryd gan Doug eto.

Argraffwyd y cloriau yn lleol yn ardal Llanbed, ac Euros a Gordon fu'n gyfrifol am eu plygu a'u gludo. Llafur cariad mae'n sïwr! Cynhyrchwyd 500 record ar syniad oedd yw gwerthu yn y gigs am £1.30. Cytunodd Haydn Talgrwn i wneud y gwerthu. Roedd Haydn yn fath o aide-de-camp i Eliffant ar y pryd. Cynigwyd gwerthu's sengl drwy'r post hefyd, mwy na thebyg y tro cyntaf i record Gymraeg. Cafodd y sengl groeso gan y wasg ar y cyfan, heb law am *Sgrech.* Roedd "newyddiaduron" y cylchgrawn wedi penderfynu fod amser Eliffant wedi dod i ben. Rwy'n sicr fod bois *Sgrech* wedi synnu gweld Eliffant yn ennill y gystadleuaeth gyntaf am dlws Y Prif Grŵp Roc '79, i ddweud y gwir, rwy'n sicr eu bod wedi ei siomi a'i diflasu. Am resymau eu hunan wrth gwrs! Beirniadaeth lem cafodd y sengl ganddynt. Cymharwyd ochr 'A' gyda " cynnyrch yr ofnadwy Lieutenant Pigeon a'i gân *Mouldy Old Dough*." a "Derec Brown a'i gerddoriaeth racarac." Roedd y gymhariaeth olaf yn plesio am fod Derec yn boblogaidd iawn ar y pryd, ond ddim ymysg bois Sgrech wrth gwrs. Roedd Derec ag Eliffant yn dod o lefydd oedd llawer rhy ddeheuol i hogia Sgrech. Roedd y cyllyll wedi eu hogi ers tro, ar lechu glas Bethesda. Fu'r sengl yma fel yr un blaenorol, yn boblogaidd ar jiwcbocsis tafarnau a chaffis y wlad. Ac mae'r record ar restr casglwyr erbyn heddiw.

Dros fisoedd olaf ’83 gwelwyd Eliffant yn chwarae’r gigs yma:

Gorffennaf 22ain, Pontypridd.
Awst 2ail, Yr Eisteddfod ym Mangor.
Medi 3ydd, Pontrhydyfendigaid.
Hydref 8ed, Bangor.

Ar Fedi’r 16eg aeth y band i stiwdio HTV yng Nghaerdydd i recordio ‘Seren I Seren’, a ‘Diwedd y Gaeaf’, a’r ddau drac o’r sengl newydd. Ac ar ddydd Sul Rhagfyr 4ydd aethant i stiwdio’r BBC yng Nghaerdydd i recordio ‘Dilyn Fi’ a ‘Ffair Caerdydd’.

Dechreuodd 1984 yn y ffordd arferol a chyfarwydd, gyda’r band yn ymarfer bob wythnos yn Felin Fach. Y flwyddyn hon oedd eu seithfed gyda’u gilydd, oleua’r aelodau gwreiddiol. Ac yn ôl eu natur smala a lletchwith, penderfynwyd dathlu pen-blwydd chwech a hanner! Trefnwyd cyngerdd yn Theatr Felin Fach. Cafwyd hysbysebu effeithiol, roedd y band wedi ymarfer yn drwyadl, ac fe wisgodd y bois yn arbennig i’r achlysur, ‘dinner jackets’ a ‘jeans’. Roedd y theatr 200 sedd dan ei sang. Noson dda, ac mae fideo (personol) o’r noson yn bodoli fel tystiolaeth i’r digwyddiad. Nid hon oedd y gig olaf, ond fe ddylai wedi bod. Ar nos Wener Chwefror 3ydd perfformiodd y band am y tro olaf ar lwyfan yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd. Y swper olaf oedd Parti Nadolig Eliffant ar nos Sadwrn Chwefror y 18ed. Roedd ond dau ddyletswydd arall yw cyflawni. Recordiad gan HTV yn Theatr Felin Fach o ‘Nol Ar Y Stryd’, ‘Dilyn Fi’, ‘Emyn Y Tad’ a ‘Protea’.
Eurof Williams oedd yn cyfarwyddo ar gyfer y gyfres SER. Y perfformiad olaf oll oedd recordio ‘Capten Idole’ gan y BBC ar gyfer rhaglen bobl ifanc Bilidowcar.
Nid yw y manylion am y chwalu yn bwysig bellach, ond roedd y diwedd wedi dod. Fe wahanodd y bechgyn yn dawel a diffys. Roedd Eliffant drosodd, wel, bron a bod.

Yn y blynyddoedd wedi i Eliffant orffen, llwybrau gwahanol iawn fu’r bechgyn yn eu dilyn. Fu Euros yn gweithio yn Theatr Felin Fach fel darlithiwr, ac yn ddiweddarach, fel rheolwr. Datblygodd y pantomeim blynyddol i fod yn sefydliad enwog trwy Gymru gyfan, fu’n chwarae rhan allweddol yn datblygu Radio Ceredigion, ac fe fu’n allweddol yn hyrwyddo datblygiad celfyddydol y gymuned gyfan yn Nyffryn Aeron a’r cylch. Dilynodd Clive ei yrfa yn Gwasanaeth Llyfrgell Sir Benfro tra’n perfformio’n gyson gyda band o ardal Hwlffordd oedd yn canu caneuon gwlad yn bennaf. Dilynodd Gordon ei yrfa yn y busnes adeiladu tra’n drymio i sawl band yn ardal Llanbed, yn canu caneuon blasus oddi ar recordiau llau cyfarwydd, a blŵs gwreiddiol a chlasurol. Gadawodd John y banc, a nawr mae’n rhedeg stiwdio recordio yng Nghaerdydd sy’n gwneud gwaith i’r teledu a ffilmiau yn bennaf. Fe aeth Geraint yn llawn amser i fyd adloniant a theledu ym 1985. O amryw ffrindiau Eliffant, mae un, Haydn Talgrwn bellach yn beilot hofrennydd, yn gweithio i’r Gwasanaeth Achub Gwyddelig, ac yn hedfan allan o Ddulyn. Ym 1994, roedd ei ben-blwydd 40 yn agosáu. Gofynnodd i Gordon a oedd gobaith cael Eliffant nôl at eu gilydd ar gyfer yr achlysur? Fel mae’n digwydd, roedd pawb yn awyddus i wneud, deng mlynedd ar ôl gwahanu. Fe ddaeth y bechgyn at eu gilydd i baratoi a thrafod y caneuon. Cynhaliwyd yr ymarferion yn Felin Fach, ond nid John Davies. Daeth ffrind i Gordon, Terry Dixon i’r adwy ar y gitâr blaen. Ar nos Wener, Awst 26ain daeth Eliffant at eu gilydd yn y Gogina Arms, Llanarth, ger Cei Newydd, Sir Aberteifi.

Perfformiodd y band set fur o naw can ac un encôr. Dyma'r rhestr caneuon:

1. Gwin Y Gwan.
2. Llosgi'r Pontydd.
3. Merthyr.
4. Magi.
5. W Capten.
6. Ffair Caerdydd.
7. Nol I Gairo.
8. Can Y Mynydd Du.
9. Lisa Lan.

Roedd y gig yn llwyddiant mawr, ac roedd y bechgyn wrth eu bodd i fod ar lwyfan gyda'u gilydd unwaith eto. Felli, pan ofynnodd Euros i'r band chwarae gig yn Felin Fach yn ystod gŵyl gelfyddydau Aerwyl, cytunodd pawb. Ar y gitâr blaen y tro yma oedd Geraint Williams o Landdarog ger Tre Caerfyrddin. Gan bod Gordon yn methu chwarae o achos galwadau cerddorol arall, gofynnwyd i ddrwmwr gwreiddiol Eliffant i gymerid rhan, ac fe gytunodd. Felli ar nos Wener, Mai 12 1995 daeth Eliffant i'r llwyfan un tro olaf yn eu cartref ysbrydol, Felin Fach o flaen cynulleidfa frwdfrydig o ffrindiau, teulu, edmygwyr, hen "roadies" ac amryw wynebau cyfarwydd. Canwyd y set naw cân eto, ond y tro yma fu'r encôr yn naw cân hefyd. Doedd y gynulleidfa ddim yn fodlon i'r bois adael y llwyfan tan iddynt ganu'r caneuon ddwy waith.

" Mwy! Mwy! Mwy! Ma'r bar dal ar agor, ac mae'r tafarnau wedi cau. Mwy! Mwy!"

Y Diwedd….efallai.